
Busnes Cymru | Business Wales



# TWRISTIAETH GYNALIADWY CYMRU
# PECYN ADNODDAU GWASTRAFF


**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales

## PAM FOD LLEIHAU GWASTRAFF YN FUDDIOL?

Nid oes ots os ydych yn sefydliad mawr neu'n ficrofusnes, mae pawb yn cynhyrchu gwastraff, ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae yna ffyrdd cyflym a hawdd o leihau hyn. Oeddech chi'n gwybod bod bwyd sy'n cael ei wastraffu yn y diwydiant bwyd yn costio £10,000 y safle bob blwyddyn ar gyfartaledd, gyda 75% o'r bwyd hwn yn addas i'w fwyta, sy'n syfrdanol!





## SIARAD Â'CH TÎM

Mae sicrhau bod eich tîm yn deall pam a sut y gellir lleihau gwastraff yn ffordd wych o'u cynnwys mewn unrhyw newidiadau a wnewch.

Gallech wneud hyn trwy greu cystadlaethau yn ymwneud â lleihau gwastraff ac uwchgylchu, neu hyd yn oed targedau tîm cymelliadol. Trwy hyrwyddo'r cyflawniadau hyn mewn cyfathrebu tîm, fel cylchlythyr, gallwch barhau i adeiladu ar ei lwyddiant.

## SIARAD Â'CH YMWELWYR

Bydd hyrwyddo ac arddangos eich arferion cynaliadwy gyda chwsmeriaid yn bendant yn ennill pwyntiau gwyrdd i chi!

- Cyflwynwch orsafoedd ail-lenwi dŵr ac annog ymwelwyr a staff i ddod â'u poteli eu hunain
- Gwnewch flychau ailgylchu yn hygyrch i'ch ymwelwyr
- Gofynnwch i bobl a hoffant ddipiau/garnisiau yn lle eu rhoi ar bob plât
- Cynigiwch gymhelliad am ddefnyddio cwpanau coffi ailddefnyddiadwy

## Gyda 3 o bob 5 o bobl* eisiau mynediad at opsiynau ailgylchu ac ailddefnyddio, dyma ein pum awgrym gwych i'ch helpu i leihau gwastraff yn eich busnes.

### 1 Tîm Gwyrdd

Crëwch dîm gwyrdd i nodi'r gwahanol fathau o wastraff (e.e. papur, bwyd, gwydr, cardfwrdd, tecstilau, eitemau trydanol, dodrefn) o fewn eich busnes. Mae hwn hefyd yn ffordd dda i annog eich tîm i gymryd rhan ac ailgylchu mwy.

### 2 Mesur Popeth

Gwnewch nodyn o ba ran o'ch busnes sy'n creu'r gwahanol fath o wastraff, a faint. Mae gwybod faint o wastraff sydd yn eich busnes yn allweddol er mwyn gallu cymryd y camau nesaf a'i leihau.

### 3 Cynllunio i Leihau

Gweithiwch allan a oes posib lleihau nifer y gwastraff a sut y gallech wneud hynny. Gallai hyn fod trwy reoli dognau bwyd, lleihau eitemau untro fel trowyr, bagiau bach, poteli siampŵ, a thrwsio ac ailddefnyddio eitemau.

### 4 A yw wedi cael ei ailgylchu?

Gwiriwch fod yr holl eitemau ailgylchadwy yn cael eu hailgylchu. Cysylltwch â'ch darparwr gwasanaeth gwastraff i wneud yn siŵr bod gennych yr holl wasanaethau ailgylchu sydd ar gael i chi, ac yn bwysicach fyth, eich bod yn eu defnyddio.

### 5 Gwiriwch eich Cyflenwyr

Ffordd dda i leihau eich gwastraff yw trwy weithio gyda'ch cyflenwyr i leihau faint o becynnu sy'n cael ei ddefnyddio. Ystyriwch weithio mewn partneriaeth â nhw i greu trefniadau cymryd yn ôl gyda phecynnau y gellir eu hailddefnyddio.

*Arolwg Ailgysylltu Croeso Cymru 2021

## OPSIYNAU CYLLIDO

Mae nifer o fanciau'n cynnig cyllid busnes gwyrdd gyda gwahanol feini prawf cymhwyster a benthyciadau o wahanol faint. Mae ein cynghorwyr effeithiolrwydd adnoddau ar gael i drafod eich anghenion gyda chi. Dyma restr fer o le y gallwch gael cyllid

- Banc Datblygu Cymru
- Banc Busnes Prydain
- Cronfa BBaCh Gwyrdd HSBC
- NatWest – Benthyciadau Gwyrdd
- Benthyciad Gwyrdd Barclays
- Benthyciad Busnes Cynaliadwy Virgin Money

## CAMAU GWEITHREDU CYFLYM

**1**

**Ewch yn ddi-bapur a gallwch chi helpu i arbed coed, lleihau gwastraff a helpu'r amgylchedd!**

**2**

**Hyrwyddwch eich ardal fel rhywle y gall pobl ail-lenwi poteli dŵr am ddim.**

**3**

**Lle gallwch chi, newidiwch i eitemau y gellir eu hailddefnyddio fel cwpanau coffi.**

## OPSIYNAU

Gellir prynu biniau ailgylchu o siopau DIY lleol a siopau nwyddau cartref. Gallant fod mor rhad neu mor ddrud ag y dymunwch.



Ymunwch â'r fenter **Refill Wales** (Saesneg yn unig) lle gallwch brynu neu rentu gorsaf ail-lenwi dŵr, a hyrwyddo eich mesurau cynaliadwy.

## ADNODDAU SYDD AR GAEL

Guardians of Grub - Lleihau gwastraff bwyd mewn busnes (Saesneg yn Unig)

WRAP - Gwastraff yn y sector lletygarwch a bwyd (Saesneg yn Unig)

www.businesswales.gov.wales/cy/rheoli-gwastraff

Gwahardd plastigau untro yng Nghymru | GOV.WALES

Taflen Ffeithiau - Deddfwriaeth Gwastraff Busnes Llywodraeth Cymru

llyw.cymru/wppn-07-21-caffael-syn-gyfeillgar-i-fusnesau-bach-a-chanolig-html

www.greenkey.global/criteria (Saesneg yn Unig)

www.refill.org.uk (Saesneg yn Unig)

**Os hoffech chi gael rhagor o gymorth ar gyflwyno mesurau arbed gwastraff i'ch busnes, cysylltwch â'n tîm heddiw.**

**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales